Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau swyddogol

# Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Awst i Hydref 2025 (dros dro)


**Dogfen gyfeiriol ystadegau swyddogol:** Sta/Medr/02/2026

**Dyddiad:** 19 Chwefror 2026
(wedi'r ddiweddaru 30 Ebrill 2026)



**Crynodeb:**

Ystadegau ar rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd. Yn cynnwys data chwarterol ynghylch nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd.



**Cyswllt:**

ystadegau@medr.cymru


**Nodyn:** Mae ffigurau gyda (p) yn dros dro.


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Pwyntiau allweddol

- Yn 2024/25, dechreuwyd 18,850 o raglenni dysgu prentisiaeth. Roedd hyn yn gostwng 13% o'r 21,625 raglenni a ddechreuwyd yn 2023/24. Yn 2024/25 y dechreuwyd y nifer lleiaf o brentisiaethau ers i'r ystadegau hyn ddechrau yn 2012/13.
- Dechreuodd 7,385 o raglenni dysgu prentisiaeth yn Ch1 2025/26 (p), o gymharu â 7,250 yn Ch1 2024/25.
- Ymhlith y prentisiaethau uwch y gwelwyd y cynydd mwyaf o gymharu â Ch1 y flwyddyn gynt, sy'n cynyddu o 22% (p).
- Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus oedd y sector eang mwyaf poblogaidd yn Ch1 2025/26 (p) hefo 2,400 raglenni dysgu prentisiaethau yn ddechreuwyd. Roedd 32% o'r holl raglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd mewn Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Roedd 52% o raglenni dysgu prentisiaeth wedi'u dechrau gan ddysgwyr gwrywaidd yn Ch1 2025/26 (p), roedd hyn dim wedi gostwng 2 pwynt canran o gymharu â Ch1 2024/25.
- Roedd 33% o raglenni dysgu prentisiaeth wedi'u dechrau gan ddysgwyr iau nag 19 oed yn Ch1 2025/26 (p) o gymharu â 35% yn Ch1 y flwyddyn gynt.
- Roedd 12% o raglenni dysgu prentisiaeth wedi'u dechrau gan ddysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn Ch1 2025/26 (p), dim newid o Ch1 2024/25
- Roedd 13% o raglenni dysgu prentisiaeth wedi'u dechrau yn Ch1 2025/26 (p) gan ddysgwyr a oedd yn nodi bod ganddynt anabledd ac/neu anhawster dysgu, roedd hyn wedi cynyddu 1 pwynt canran o gymharu â Ch1 2024/25.
- Roedd 10% o'r dysgwyr a ddechreuodd raglenni dysgu prentisiaeth yn ddysgwyr sy'n byw yn y 10% o gymdogaethau â'r mwyaf o amddifadedd yng Nghymru yn 2025/26 Ch1 (p).
- Mae 88,455 o brentisiaethau wedi'u dechrau rhwng Mai 2020 ac Hydref 2025, yn rhan o'r cynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru o 100,000 o brentisiaethau. Gan gynnwys y dysgwyr a ddechreuodd raglenni na chânt eu cyfrif fel rhan o'r mesur mwy trwyadl ar gyfer y targed, dechreuodd gyfanswm o 97,355 o ddysgwyr brentisiaethau yn ystod y cyfnod.
- Roedd y Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys targed i greu 125,000 o brentisiaethau pob oed. Yn ystod cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 26 Mehefin 2024, fe gytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar darged newydd o 100,000 o brentisiaethau pob oed i gynnal targed tymor blaenorol y Senedd o 100,000.

Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau yn y flwyddyn ariannol 2023-24 yn £139m ac yn £144m yn 2024-25 (Ffynhonnell: Dyraniadau cyllid Medr 2025 i 2026).). Yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd cyllid ychwanegol ar gyfer prentisiaethau o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (£43m yn 2023-24 Dyraniadau cyllid Medr 2025 i 2026). Fe ddaeth hyn i ben erbyn y flwyddyn ariannol 2024-2025.

Rhaglenni dysgu Prentisiaeth a ddechreuwyd: dangosfwrdd rhyngweithiol

## Gwybodaeth reoli

Gwybodaeth reoli a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill. Ceir y diweddariad nesaf ar 28 Mai.

Mae gan Medr fynediad at wybodaeth reoli fwy diweddar, nad yw wedi cael ei dilysu na'i gwirio o ran ansawdd, i'r un graddau â'r ystadegau swyddogol yn yr adroddiad hwn.

Yn ôl y wybodaeth reoli ar 23 Ebrill 2026:


- Cafwyd 95,870 o ddechreuadau prentisiaeth ers Ch4 2020/21, yn rhan o'r mesur llymach o gynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru o 100,000 o brentisiaethau yng nghyfnod y Senedd.
- O gynnwys y dechreuadau nad ydynt wedi'u cyfrif yn rhan o fesur llymach y targed, cafwyd cyfanswm o 104,895 o ddechreuadau prentisiaeth dros y cyfnod hwnnw o amser.
- Gwnaeth cyfanswm nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd yn ystod cyfnod y Senedd groesi 100,000 ym mis Ionawr 2026. Gwnaeth nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd ar gyfer y mesur targed mwy trwyadl aros islaw 100,000.

I ddibenion y mesur hwn ac i gyd-fynd â'r cyfnodau adrodd chwarterol ar gyfer yr ystadegau hyn, rydym yn ystyried bod cyfnod y Senedd yn rhychwantu Ch4 2020/21 i Ch3 2025/26 (1 Mai 2021 i 30 Ebrill 2026).

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys gradd-brentisiaethau. Daw'r data ar radd-brentisiaethau o gasgliad data gwahanol, sydd ar gael bob blwyddyn. Cafodd y diweddariad diwethaf i'r data ar radd-brentisiaethau ei wneud ar 29 Ionawr ac roedd yn cynnwys data ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.Bydd gwybodaeth am radd-brentisiaethau a ddechreuodd yn ystod tri chwarter cyntaf blwyddyn academaidd 2025/26 ar gael ym mis Ionawr 2027. Roedd 480 o radd-brentisiaethau yn 2024/25 fel rhan o'r mesur targed, a dechreuwyd cyfanswm o 485.

Cyfanswm y dechreuadau prentisiaeth yng nghyfnod y Senedd

**Ffigur 1: Gwybodaeth reoli ar 23 Ebrill 2026**



Disgrifiad: Dechreuwyd llai ym mis Rhagfyr 2025 na'r misoedd eraill. Mae hyn yn nodweddiadol.

Mae gan ddarparwyr gyfnod o 8 wythnos i gofnodi bod prentis yn dechrau. Ni fydd yr wybodaeth reoli hon yn cynnwys yr holl brentisiaid sydd wedi dechrau yn y cyfnod dan sylw.

Mae'n cymryd amser hefyd i ganfod a yw prentis yn anghymwys ar gyfer y mesur llymach, sy'n eithrio prentisiaid sy'n tynnu'n ôl yn yr 8 wythnos gyntaf a rhai sy'n trosglwyddo allan o'i rhaglen.

Bydd darparwyr yn newid eu cofnodion yn barhaus i sicrhau cywirdeb. Mae'r sefyllfa derfynol ar gyfer ystadegau swyddogol yn seiliedig ar y cofnod fel y mae ym mis Rhagfyr ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd.

Wrth inni ddod at ddiwedd cyfnod y Senedd, rydym yn bwriadu rhoi diweddariadau misol o wybodaeth reoli ar gynnydd tuag at y targed o 100,000 o brentisiaethau.

Dyma'r amserlen ar gyfer y diweddariadau:

| Dyddiad yr wybodaeth reoli | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| 18 Rhagfyr 2025 | 8 Ionawr 2026 |
| 22 Ionawr 2026 | 29 Ionawr 2026 |
| 19 Chwefror 2026 | 26 Chwefror 2026 |
| 19 Mawrth 2026 | 26 Mawrth 2026 |
| 23 Ebrill 2026 | 30 Ebrill 2026 |
| 21 Mai 2026 | 28 Mai 2026 |
| 18 Mehefin 2026 | 25 Mehefin 2026 |

Cesglir yr wybodaeth reoli ar y dydd Iau yn nhrydedd wythnos lawn y mis. Dylai'r ffigurau a adroddir ym mis Mehefin roi syniad rhesymol o'r ffigurau terfynol dros gyfnod y Senedd, er na fydd gennym ddarlun llawn o'r rhai a dynnodd yn ôl, tan y caiff y data terfynol ei gyhoeddi.

Bydd fersiwn ddiweddaraf yr adroddiad hwn yn cynnwys y diweddariadau, ac fe'u cyhoeddir ar ein Calendr cyhoeddi ystadegau. Mae'r adroddiad nesaf ar raglenni dysgu Prentisiaeth wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror 2026, a bydd yn cynnwys data hyd at fis Hydref 2025.

Bydd sefyllfa derfynol y targed prentisiaethau, yn ôl yr ystadegau swyddogol â sicrwydd ansawdd, yn cael ei hadrodd yn yr adroddiad ar Raglenni dysgu prentisiaeth sydd wedi'i amserlennu i'w gyhoeddi yng Ngwanwyn 2027.

Mae'r nifer o radd-brentisiaethau ar gyfer 2023/24 wedi cael eu hadolygu o 385 i 360 oherwydd bod rhai cyrsiau wedi cael eu cofnodi'n anghywir fel gradd-brentisiaethau. Cafodd y dechreuadau gradd sy'n cyfri tuag at fesur y targed llymach eu hadolygu o 385 i 355.

## Ansawdd a Methodoleg

### Newid y rhew

Gan ddechrau o Ch2 2024/25, fe newidiodd y dyddiad cau ar gyfer data prentisiaethau a ddechreuwyd. Yn flaenorol, byddai Ch1, Ch2 a Ch3 yn defnyddio cipolwg o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) fel yr oedd chwe mis ar ôl diwedd y chwarter. Yn y dyfodol bydd Ch1, Ch2 a Ch3 yn seiliedig ar ddyddiadau cau dri mis ar ôl diwedd y chwarter.

Fe wnaed y newid i wella amseroldeb yr ystadegau.

Bydd y ffigyrau terfynol yn parhau i fod yn seiliedig ar ddyddiad cau mis Rhagfyr ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd.

Mae’r canllawiau’n nodi y dylid cofnodi dysgwr o fewn 8 wythnos i ddechrau. Dangosodd dadansoddiad o brentisiaethau a ddechreuwyd yn Ch2 2023/24 fod y data a gasglwyd adeg y dyddiad cau tri mis yn cynnwys 99.6% o’r prentisiaethau a ddechreuwyd y casglwyd data arnynt adeg y dyddiad cau chwe mis (Mehefin 2024), gan ddynodi y bydd y newid hwn yn cael effaith fach iawn ar gywirdeb.

### Data dros dro

Cynhyrchir yr ystadegau yn yr adroddiad hwn bob chwarter. Ffigurau dros dro yw'r rhai chwarterol am eu bod yn seiliedig ar ddata wedi'u rhewi'n gynharach o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Bydd y data hyn yn parhau i gael eu diweddaru nes rhewi'r data am y tro olaf ym mis Rhagfyr ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd.

Caiff y ffigurau dros dro ar gyfer y flwyddyn eu pennu'n derfynol pan gaiff data Ch4 (Mai i Orffennaf) eu cyhoeddi ym mis Chwefror/Mawrth bob blwyddyn, yn seiliedig ar y data a gafodd eu rhewi ym mis Rhagfyr.

### Dechreuadau mesur targed

Yn yr ystadegau ar gyfer y mesurau targed defnyddir dull mwy trwyadl o fesul dechreuadau rhaglenni prentisiaeth nag ystadegau eraill yn yr allbwn hwn. Mae'r dull hwn o fesur yn rhoi cyfrif am rai sy'n tynnu'n ôl yn gynnar (o fewn yr 8 wythnos gyntaf) ac am drosglwyddiadau rhwng prentisiaethau.

Mae gradd-brentisiaethau bellach wedi'u cynnwys yn y mesur targed presennol. Mae gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn rhoi'r cyfle i gyfuno gweithio ag astudio'n rhanamser yn y brifysgol. Daw'r data o'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Er bod ystadegau gan HESA wedi'u cyfrifo fel y gellir eu cymharu cymaint â phosibl ag ystadegau ar gyfer rhaglenni prentisiaethau eraill a geir o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (er enghraifft, peidio ag ystyried pobl sy'n gadael rhaglenni'n gynnar), bydd rhai gwahaniaethau methodolegol yn parhau. Yn wahanol i'r LLWR, mae data HESA ar gael yn flynyddol yn unig.

## Rhagor o wybodaeth am ansawdd

Heblaw am y data dros dro a'r mesur targed, cynhyrchir yr ystadegau hyn yn yr un modd â'r ystadegau yn yr Adroddiadau blynyddol addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran ansawdd yr adroddiadau hynny.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â'n Datganiad Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, a pholisïau ystadegol eraill.

Mae'r ystadegau swyddogol achrededig hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Sicrheir hyn drwy gydymffurfiaeth ystadegwyr proffesiynol â'r Cod Ymarfer Ystadegau. Caiff dyddiadau rhyddhau eu cyhoeddi ymlaen llaw, a chedwir at brotocolau'n gysylltiedig â chyfrinachedd data.

### Ansawdd

Daw'r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hyn hefyd i benderfynu ynghylch cyllid i ddarparwyr dysgu, ac maent yn destun archwiliad.

Pan gyflwynir y data, rhaid iddynt fodloni rheolau dilysu penodol. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi cipolwg cyflymach o'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau yng Nghymru na'r adroddiadau a lunnir yn flynyddol. Fe'u defnyddir i fonitro a gwerthuso'r sector. Maent yn adrodd ar gynnydd yn erbyn targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**